# Cynllun Cymorth i Oroeswyr

Cyhoeddir y canllawiau hyn i sicrhau bod goroeswyr camdriniaeth sy'n gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru yn derbyn cymorth ymarferol ac ariannol er mwyn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan mae ei angen, a phan fo hynny'n briodol. Nid cynllun iawndal neu gynllun gwneud iawn yw hwn ac nid yw wedi'i fwriadu fel ffordd o wneud iawn am gamdriniaeth sydd wedi digwydd.

## Cymhwystra

Gall unigolyn gael cyllid drwy'r broses hon yn y sefyllfaoedd canlynol:

- yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, credir bod yr unigolyn yn oroeswr camdriniaeth sy'n gysylltiedig â'r Eglwys
- bod angen cymorth yn sgil yr hyn a ystyrir ei fod wedi codi o ganlyniad i gamdriniaeth yn gysylltiedig â'r Eglwys
- bod angen rhywfaint o gymorth ariannol i alluogi'r goroeswr i gael gafael ar y cymorth.

DS - mae camdriniaeth sy'n gysylltiedig â'r Eglwys wedi'i ddiffinio fel camdriniaeth a gyflawnwyd yng nghyd-destun sefydliadau a oedd yn rhan o'r Eglwys yng Nghymru ar adeg y cam-drin. Camdriniaeth a gyflawnwyd, er enghraifft, gan rai a oedd yn dal swydd weinidogol yn yr Eglwys ar yr adeg berthnasol neu gamdriniaeth sydd wedi digwydd yn un o lefydd addoli'r Eglwys yng Nghymru neu yng nghyd-destun gweithgareddau'r Eglwys. Ni fwriedir iddo gynnwys camdriniaeth a ddigwyddodd y tu allan i weithgareddau uniongyrchol yr Eglwys.

## Cwmpas

Gellir darparu cyllid brys, tymor byr a thymor canolig drwy'r broses hon. Gellir darparu cymorth brys o hyd at £2,000 tra bod angen cais a phroses benderfynu llawnach ar gyfer cymorth cyllid tymor byr a chanolig. Bydd lefel y cyllid y cytunir arno'n cael ei benderfynu fesul achos.

Deellir y bydd anghenion pob goroeswr yn wahanol ac felly nid yw'r canllawiau hyn yn bwriadu bod yn gyfarwyddol eu natur, ond yn seiliedig ar angen sydd wedi ei asesu. Mae'r cymorth y gellir ei ariannu'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwnsela, cymorth ar gyfer dibyniaeth, cymorth tai, cymorth ar gyfer teuluoedd a chyd-berthnasoedd, a chymorth cyflogaeth.

## Proses

Mae tri cham i'r broses ymgeisio.

1) Cais ac asesu angen
2) Panel penderfynu
3) Adolygu

## Cais ac asesiad

Mae ffurflen gais (atodiad 1) yn cael ei chwblhau. Gellir rhoi cymorth i'r goroeswr lenwi'r ffurflen. Bydd hyn yn cael ei roi naill ai gan aelod o Dîm Diogelu'r Dalaith neu Safe Spaces, os nad yw'r goroeswr am ymwneud yn uniongyrchol â'r Eglwys yng Nghymru.

Pan fo'n bosibl, dylai ceisiadau am gymorth tymor byr a thymor canolig gael asesiad atodol gan weithiwr proffesiynol perthnasol. Os gofynnir am gwnsela, efallai y bydd asesiad therapiwtig cychwynnol yn cael ei ariannu ac yna cyllid dilynol yn cael ei gytuno ar sail yr angen a aseswyd.

Mae'r ffurflen ei hun yn ddigon ar gyfer ceisiadau brys.

**Y Panel Penderfynu**

Bydd panel cymorth i oroeswyr yn cyfarfod bob chwarter i ystyried ceisiadau. Bydd y panel yn cynnwys y canlynol o leiaf: y Cyfarwyddwr Diogelu (cadeirydd), y Prif Weithredwr (neu gynrychiolydd); aelod o'r Pwyllgor Diogelu; arbenigwr annibynnol i gynrychioli lleisiau goroeswyr. Bydd yr arbenigwr annibynnol yn berson nad yw'n dal unrhyw swydd gyflogedig neu wirfoddol yn yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd y Panel yn gwrando ar wahanol sylwadau. Bydd Swyddog Diogelu perthnasol y Dalaith yn cyflwyno'r achos i'r panel. Mae'r goroeswr yn gallu cyflwyno sylwadau i'r panel yn ysgrifenedig neu ar lafar, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd/eiriolwr. Bydd yr Esgob Esgobaethol (neu ei gynrychiolydd) yn cael cyfle i roi sylwadau am gyllid mewn ymateb i geisiadau.

Yna, bydd y Panel yn ystyried y cais mewn sesiwn gaeedig ac yn cyfathrebu'r penderfyniad i gynrychiolwyr y goroeswr a'r esgob esgobaethol.

Gall y goroeswr apelio i Banel Diogelu'r Dalaith yn erbyn penderfyniad y Panel. Bydd hyn yn golygu ystyriaeth ac argymhellion pellach.

**Adolygu**

Bydd y Panel Penderfynu'n pennu cyfnod adolygu priodol. Dylid cwblhau adroddiad adolygu mewn partneriaeth â'r goroeswr (atodiad 2) a'i ddarparu i'r Panel i ystyried unrhyw gyllid parhaus gofynnol.

**Ceisiadau Brys**

Pan ddeellir bod:

Perygl sylweddol o niwed os na roddir cymorth cyn cyfarfod nesaf y Panel;

Nad oes gan y goroeswr ddarpariaeth cymorth arall,

gellir gwneud cais brys drwy gwblhau'r ffurflen gais (atodiad 1).

Bydd Panel Penderfynu'n cael ei alw o fewn 3 diwrnod gwaith. Gofynnir i aelodau'r panel sy'n methu bod yn bresennol i roi eu sylwadau i'r Cadeirydd cyn trafodaeth y Panel.

**Cwnsela**

Cwnsela yw un o'r mathau o gymorth y mae goroeswyr yn gofyn amdano'n fwyaf aml. Wrth ystyried ceisiadau am gymorth therapiwtig dylid ystyried y canlynol:

- Mewn llawer o ardaloedd, mae cwnsela arbenigol ar gael am ddim i oroeswyr camdriniaeth. Dylid ystyried y rhain i ddechrau;
- Er ei bod yn bwysig rhoi dewis o therapydd a dull therapiwtig i oroeswr, mae hefyd yn briodol ystyried effeithiolrwydd unrhyw fodel therapiwtig penodol y gofynnir amdano. Gall canllawiau NICE a gwaith ymchwil priodol helpu gyda hyn. Mae'r BACP hefyd yn darparu disgrifiadau defnyddiol o wahanol therapïau: [Types of counselling and psychotherapy (bacp.co.uk)]

Pan fydd ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal, neu pan fydd hynny'n debygol, mae'n rhaid i unrhyw gymorth therapiwtig ddilyn canllawiau cyn-dreial. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yng nghanllawiau cyn-dreial Gwasanaeth Erlyn y Goron, ni ddylid oedi therapi am unrhyw reswm

sy’n gysylltiedig ag ymchwiliad neu erlyniad troseddol. Mae hyn yn golygu y gellir blaenoriaethu cymorth therapiwtig i ddioddefwyr a goroeswyr hyd yn oed yn ystod ymchwiliadau’r heddlu - dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ac ymgynghori â’r heddlu.

Therapi Cyn-dreial| Gwasanaeth Erlyn y Goron (cps.gov.uk)

Dylid gwneud y penderfyniad i orffen darparu cymorth therapiwtig ar adeg adolygu y cytunwyd arno ymlaen llaw. Mae’n rhaid i’r adolygiad gynnwys barn y goroeswr am ei anghenion ac asesiad y therapydd (gweler atodiad 2).

**Atodiad 1 – Ffurflen Gais Cymorth i Oroeswyr**

| | |
|---|---|
| Enw llawn yr ymgeisydd | |
| Dyddiad geni | |
| Cyfeiriad | |
| Manylion Cyswllt (ffôn ac e-bost) | |
| Person cyswllt yr Eglwys yng Nghymru | |
| Dyddiad Cais | |
| Crynodeb Byr o gamdriniaeth yn gysylltiedig â’r Eglwys | |
| Statws cyfredol unrhyw ymchwiliadau | |

| Cymorth y gofynnir amdano | Sail resymegol dros gymorth | Cost |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Unrhyw Dystiolaeth neu Wybodaeth Ategol<br><br>(nid oes angen hyn ar gyfer ceisiadau brys ond dylid eu darparu ar gyfer cymorth tymor byr a thymor canolig) | | |
| Llofnod yr ymgeisydd | | Dyddiad: |
| Llofnod Swyddog Diogelu'r Dalaith: | | Dyddiad: |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad y Panel (yn cynnwys sail resymegol i esbonio'r penderfyniad) | |
| Dyddiad Adolygu y Cytunwyd arno | |
| Llofnod Cadeirydd y Panel | |
| Dyddiad: | |

**Atodiad 2 - Ffurflen Adolygu'r Cynllun Cymorth i Oroeswyr**

| | |
|---|---|
| Enw llawn yr ymgeisydd | |
| Person cyswllt yr Eglwys yng Nghymru | |
| Dyddiad y Cais Gwreiddiol (atodwch gopi) | |
| Dyddiad unrhyw Adolygiadau blaenorol (atodwch gopi) | |
| Dyddiad y cais adolygu cyfredol | |
| Crynodeb byr o'r cymorth a ddarparwyd hyd yma a'i effeithiolrwydd | |
| Statws cyfredol unrhyw ymchwiliadau | |

| Cymorth y gofynnir amdano | Sail resymegol am gymorth | Cost |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| | |
|---|---|
| Unrhyw Dystiolaeth neu Wybodaeth Ategol | |

| | |
|---|---|
| (nid oes angen hyn ar gyfer ceisiadau brys ond dylid eu darparu ar gyfer cymorth tymor byr a thymor canolig) | |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad y Panel (yn cynnwys sail resymegol i esbonio’r penderfyniad) | |
| Dyddiad Adolygu y Cytunwyd arno | |
| Llofnod Cadeirydd y Panel | |
| Dyddiad: | |